OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1578

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015

**Anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra – oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth**

**3.** Mae angen oedolyn y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 2(1) yn bodloni'r meini prawf cymhwystra os yw—

(a) yr angen yn codi o afiechyd corfforol neu feddyliol yr oedolyn, ei oedran, ei anabledd, ei ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg eraill;

(b) yr angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol—

(i) gallu i gyflawni arferion hunanofal neu arferion domestig;

(ii) gallu i gyfathrebu;

(iii) amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;

(iv) ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden;

(v) cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu rai personol eraill o bwys;

(vi) datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned; neu

(vii) cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn;

(c) yr angen yn un nad yw'r oedolyn yn gallu ei ddiwallu, naill ai—

(i) ar ei ben ei hun;

(ii) gyda gofal a chymorth(**1**) eraill sy'n fodlon darparu'r gofal a'r cymorth hwnnw; neu

(iii) gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddynt; a

(d) yr oedolyn yn annhebyg o sicrhau un neu fwy o'i ganlyniadau personol oni bai—

(i) bod yr awdurdod lleol yn darparu neu yn trefnu gofal a chymorth i ddiwallu'r angen; neu

(ii) bod yr awdurdod lleol yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu drwy wneud taliadau uniongyrchol(**2**).

(**1**) Diffinnir "gofal a chymorth" yn rhannol yn adran 4 o'r Ddeddf.

(**2**) Caiff rheoliadau o dan adrannau 50 i 53 o'r Ddeddf ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson tuag at y gost o ddiwallu ei anghenion. Cyfeirir at daliadau o'r fath yn y Ddeddf fel "taliadau uniongyrchol".